# Rhaglen Gyflawn

**Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru**

**North & Mid Wales Trunk Road Agent**

Asiantaeth Gefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

1.00 y.h., Dydd Mawrth, 15fed Medi, 2015,

Committee Room 2, Council Offices, Cae Penarlâg, Dolgellau, Gwynedd. LL40 2YB

---

## Rhaglen

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | YMDDIHEURIADAU | |
| **2.** | ETHOL CADEIRYDD | |
| **3.** | ETHOL IS-GADEIRYDD | |
| **4.** | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | |
| **5.** | COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF A MATERION YN CODI | (Tudalennau 1 - 4) |
| **6.** | ADRODDIAD CYD BWYLLGOR | (Tudalennau 5 - 13) |
| **7.** | DIWEDDARIAD AR DDATGANIAD Y GWEINIDOG<br>i) Llythyr Penderfyniad y Gweinidog<br>ii) Adborth o gyfarfod gyda LlC 27/8/15 | |
| **8.** | NMWTRA SUBMISSION TO WG 31/4/15<br>i) Model Trosolwg ACGChC<br>ii) Asesu goblygiadau staffio ACGchC<br>iii) Cynllun Rhaglennu a Darparu | (Tudalen 14) |
| **9.** | CYTUNDEB CYFLAWNI GWASANAETHAU 2016<br>i) Cynnal a Chadw ar sail deallusrwydd<br>ii) WGMA 2015 gofynion ychwanegol | |
| **10.** | UFA | |
| **11.** | DYDDIAD CYFARFOD NESAF | |

Uned 7, Llys Onnen, Ffordd y Llyn, Parc Menai, Bangor, LL57 4DF
01286 685 186
lyndahumphreys@nmwtra.org.uk

# ASIANTAETH CEFNFFYRDD GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU CYDBWYLLGOR ARBENNIG 29-01-15

**Cynhaliwyd am 1.30pm, dydd Iau, 29 Ionawr 2015**
**Yn Swyddfa ACGCC, Cae Penarlâg, Dolgellau**

**Yn bresennol -** Y Cynghorydd Gareth Roberts (Gwynedd) (Cadeirydd),

Y Cynghorwyr Bob Dutton (Wrecsam), David Bithell (Wrecsam), Wynne Jones (Powys)

**Hefyd yn bresennol** – Dilwyn Williams (Prif Weithredwr, Gwynedd), Steve Jones (Pennaeth Gwasanaeth, Sir y Fflint), Paul Arnold (Pennaeth Gwasanaeth, Ceredigion), Nigel Brinn, Pennaeth Priffyrdd, Trafnidiaeth ac Ailgylchu (Powys), Darren Williams (Pennaeth Gwasanaeth, Wrecsam), Dave Cooil (Pennaeth Asiantaeth, ACGCC), Ian Hughes (Rheolwr Busnes ac Ansawdd, ACGCC), Lynda Humphreys (Gweinyddwr, ACGCC),

**Ymddiheuriadau: -** Geraint Edwards (Pennaeth Gwasanaeth, Conwy), Cynghorwyr John Wyn Jones (Gwynedd), Mike Priestley (Conwy), John Powell (Powys), Bernie Attridge (Sir y Fflint), Neil Rogers (Wrecsam), Paul Griffiths (Powys), Steve Parker (Pennaeth Gwasanaeth, Sir Ddinbych), y Cynghorydd Alun Williams (Ceredigion) (Is-Gadeirydd), y Cynghorwyr David Smith (Sir Ddinbych), Richard Dew (Ynys Môn), Gwyn Morris Jones (Pennaeth Gwasanaeth, Gwynedd), Huw Morgan (Cyfarwyddwr Strategol, Ceredigion), Dewi Williams (Pennaeth Gwasanaeth, Ynys Môn)

## 1. Adolygiad Llywodraeth Cymru (LlC) / Diweddariad ar Ddatganiad y Gweinidog

Dosbarthwyd papurau cefndir ACGCC cyn y cyfarfod:

i. *Datganiad gan y Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth 11 Tachwedd 2014*
ii. *Adolygu trefniadau cefnffyrdd Cymru (llythyr dyddiedig 22/12/14)*
III. *Fframwaith ar gyfer sesiwn Dialog ar arbedion effeithlonrwydd (llythyr dyddiedig 9/1/15)*
iv. *Papur 1 Adolygiad yr Asiantaeth, gofynion newid LlC*
V. *Papur 2 Cyfraddau Ymgynghoriaeth PA – Crynodeb o'r adolygiad Meincnodi*

Cafwyd diweddariad gan Dave Cooil, Pennaeth yr Asiantaeth, yn rhoi gwybod i aelodau'r Cydbwyllgor am ofynion newidiadau LlC ac i sefydlu rhaglen i'w rhoi ar waith, ynghyd ag adolygiad meincnodi ACGCC o'r cyfraddau codi tâl ymgynghori, a'r camau angenrheidiol i ymateb i argymhellion archwiliad LlC.

Cadarnhaodd Pennaeth yr Asiantaeth y trafodwyd y ddau bapur a'r cynigion i leihau costau gyda phob Pennaeth Gwasanaeth ar 21/1/15. Ar ôl cael cytundeb i'r cynigion hynny gan aelodau'r Cydbwyllgor ar 29/1/15 y bwriad oedd eu cyflwyno i LlC fel rhan o'r broses ddialog ffurfiol a ddisgrifiwyd ym mhapur cefndir Rhif iii) uchod. Cynhelir y sesiwn cyntaf ar 4/2/15. Bydd DRC yn diweddaru'r holl Awdurdodau Partner am ganlyniad y sesiyn(au) dialog.

i. *Papur 1 Adolygiad yr Asiantaeth, gofynion newid LlC*

Cyflwynodd DRC y papur cyntaf, a chodwyd cwestiynau gan yr Aelodau.

Gofynnodd y Cyng. Bob Dutton a oedd yr Asiantaeth yn gallu gweithredu ar y cynigion, ac a oedd angen cefnogaeth gan ymgynghorydd allanol. Adroddodd DRC fod yr Asiantaeth yn defnyddio'i staff ei hun ar hyn o bryd er mwyn cwrdd â'r amserlen dynn iawn ar gyfer cyflwyno cynigion, wrth baratoi achosion busnes a'r holl ddogfennau cefnogol i Archwilwyr LlC. Roedd y swyddi'n cael eu hôl-lenwi dros dro gydag arian a gymeradwywyd gan LlC er mwyn sicrhau bod y gwaith dydd-i-ddydd yn cael ei gynnal.

Adroddodd DRC y byddai angen cefnogaeth gyda'r wybodaeth am gostau gan yr AP yn yr ymarfer meincnodi, a chadarnhaodd y byddai'r ffigurau'n cael eu diweddaru pan fyddai'r Asiantaeth wedi cwblhau'r ymarfer meincnodi.

Codwyd mater proffil yr arbedion costau gan y Cyng. Wynne Jones. Esboniodd DRC na fyddai mwyafrif yr arbedion yn cael eu gweithredu tan 2016, gan ddisgwyl am benderfyniad y Gweinidog ym mis Gorffennaf, ond y byddai unrhyw arbedion y gellid eu cyflawni cyn hynny yn cael eu rhoi ar waith ac yn cael eu cydnabod gan LlC.

Codwyd mater mewnoli/gwasanaethau mewnol gan y Cyng. Bithell, a adnabuwyd fel maes lle gallai'r AP ymgymryd â mwy o waith gyda staff mewnol a gyflogwyd yn uniongyrchol, yn seiliedig ar ddull cydweithio a fyddai'n fuddiol i'r Asiantaeth a'r AP, gyda'r gobaith y byddai'n bodloni LlC.

Roedd DRC yn gefnogol iawn o'r dull hwn a chytunodd ei bod yn galonogol, gan gadw'r gwaith o fewn ein hadnoddau sector cyhoeddus cyn belled â phosib, ac y byddai hyn yn gwella gallu a chapasiti unedau gwaith yr AP.

Ail-ategodd Dilwyn Williams bwysigrwydd dilyn model ar y cyd a fyddai o fudd i'r Ffyrdd Sirol a'r Cefnffyrdd. Roedd yn bwysig bod y cynigion sy'n cael eu gwneud ym Mhapur DRC yn bwriadu lleihau costau er mwyn amddiffyn y darlun ehangach ac o'r hyn a ddisgwylir ganddynt a'r effaith ariannol a allai godi oes penderfynwyd y Gweinidog ar ateb y sector preifat, a goblygiadau sylweddol ar incwm AP ac y gallai fod goblygiadau sylweddol a'r staff. Cadarnhaodd DRC mai tua £21m oedd y trosiant cyfredol ar draws gweithgareddau'r Canllaw Cynnal a Chadw Cefnffyrdd (TRMM). Gofynnodd DOW a fyddai modd dosbarthu Papur ychwanegol ar y gostyngiadau cost ddangosol i'r AP unigol, er mwyn amlygu'r effaith ariannol ac i gynorthwyo â chynllunio'r gyllideb ar gyfer y dyfodol.

Trafodwyd y crynodeb o'r mesurau arfaethedig i leihau costau. Cyfeiriwyd at y £1.87m o arbedion effeithlonrwydd arfaethedig ar weithgareddau TRMM yn seiliedig ar asesiad cychwynnol. Esboniodd DRC y byddai'r adroddiad yn cael ei addasu ac yn amodol ar gymeradwyaeth y pwyllgor, byddai'r cynigion yn cael eu cyflwyno yn y sesiwn dialog cyntaf gyda LlC ar 4/2/15 i'w craffu a'u herio gan banel asesu LlC. Nodwyd ei bod yn ansicr a fyddai LlC yn derbyn y cynigion ai peidio.

Adroddodd DRC bod LlC yn disgwyl 20% o arbedion costau, gydag arbedion o rhwng £3m a £4m. Bydd arbedion costau yn ychwanegol i'r rhai a nodwyd yn yr adroddiad cyfresol yn cael eu harchwilio gan ACGCC, fydd yn cynnwys datblygu system cynnal a chadw'n seiliedig ar wybodaeth, gan ystyried newidiadau megis symud tuag at ail gylch o lanhau gylïau wedi'i dargedu yn hytrach na dull 'blanced'.

Yr incwm o'r Atodlen Gyfraddau (SOR) – cododd SJ (Sir y Fflint) fater ynghylch herio a manylion y Cyfraddau SOR. Gofynnwyd a oedd y rhain wedi'u herio yn y gorffennol. Esboniodd DRC fod hyn wedi'i wneud mewn ymarferion meincnodi blaenorol, ond bod lefel y wybodaeth yn y cyfraddau uned wedi gwneud hyn yn anodd iawn. Dyma'r flwyddyn gyntaf y defnyddiwyd dull llyfr agored ac mae lefel y wybodaeth sydd ar gael bellach wedi gwella gallu ACGCC i feincnodi'r costau yn gywir, i nodi a chyfiawnhau'n glir pam fod costau'n amrywio am resymau dilys e.e. gweithio yn ystod y nos.

*ii. Papur 2 Cyfraddau Ymgynghoriaeth yr AP – Crynodeb o'r adolygiad Meincnodi*

Cyflwynodd DRC yr ail bapur, a gofynnodd yr Aelodau gwestiynau.

Esboniodd DRC fod archwiliad LlC ym mis Rhagfyr 2013 wedi nodi nad oedd gwaith a ddyfarnwyd ar sail hawl, neu sail codi-am-amser yn cynrychioli gwerth am arian. Mae ACGCC wedi bod yn datblygu newidiadau i'w fodel comisiynu ymgynghoriaeth er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau'r adroddiad archwilio.

Esboniodd DRC fod ACGCC wedi cynnal ymarferiad meincnodi rhwng ei ymgynghoriaethau mewnol AP a'i Ymgynghorwyr Fframwaith sector preifat wrth adnewyddu ei gytundeb Fframwaith Ymgynghoriaeth. Ailadroddwyd yr ymarfer ar ôl dyfarnu ei Gytundeb Fframwaith presennol ym mis Tachwedd 2014. Mae ymgynghorwyr AP wedi olrhain y cyfraddau codi tâl am staff yn dilyn yr ymarferion meincnodi blaenorol. Bellach mae angen addasiad pellach i'r lluoswr cyflog o 2.1 i 1.9 er mwyn cynnal cydraddoldeb gyda chyfraddau codi tâl y Fframwaith. Mae LlC wedi cydnabod nad oedd defnyddio cyfraddau codi tâl cyfatebol yn sicrhau gwerth am arian gan fod cyfraddau cynhyrchiant hefyd yn rhan allweddol o gost comisiynau'r ymgynghoriaeth.

Esboniodd DRC sail y model comisiynu newydd - ar gyfer gwaith o werth isel gyda ffioedd gwerth hyd at £50k, byddai dau ymgynghorydd a ffafrir yn cael eu defnyddio, ac un o'r ymgynghorwyr mewnol wedi'u caffael drwy gyfrwng Ymgynghoriaeth Awdurdodau Partner Cymru (WPAC). Byddai unrhyw waith dros ben na allai WPAC ei gyflawni yn cael ei ddyfarnu i'r ymgynghorydd a ffafrir drwy'r Fframwaith. Er mwyn sicrhau bod y ddau ymgynghorydd a ffafrir yn darparu gwerth am arian cyfatebol, byddai 10% o'r llwyth gwaith yn destun profion marchnad. Byddai'r dull hwn yn sicrhau bod y gorbenion wrth gomisiynu gwaith o werth isel yn cael eu cadw mor isel â phosib, gan sicrhau gwerth am arian. Ar gyfer gwaith o werth uwch gyda ffioedd dros £50k byddai'r holl gomisiynau yn cael profion marchnad rhwng WPAC ac Ymgynghorwyr y Fframwaith.

Ystyrir bod hyn yn darparu model cadarn iawn i ddangos gwerth am arian i LlC gan sicrhau fod cymaint o waith â phosib yn cael ei gadw ar hawl i ymgynghoriaethau'r AP, cyn belled â'u bod yn gweithredu ar raddfeydd y farchnad. Byddai hwn yn fodel cynaliadwy.

Ar hyn o bryd, caiff yr holl gomisiynau eu cyhoeddi gan Fwrdd APAC ar y cyd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Bowys, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd a Cheredigion.

Gofynnodd y Cyng. Bob Dutton a fu unrhyw gysylltiad uniongyrchol rhwng yr Asiantaeth a'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol. Ymatebodd DRC gan esbonio bod ACGGC yng nghylch gorchwyl y Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ac felly nad oedd unrhyw gyswllt uniongyrchol gyda'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol.

Gofynnodd y Cyng. Wynne Jones faint o arbedion fyddai'n deillio o Lot 1 a Lot 2. Esboniodd DRC y gallai'r arbedion ddeillio o gyfuniad o leihad yn y lluoswr cyflogau a mabwysiadu model ffi benodol gyda phrofion marchnad. Disgwylir i hyn fod oddeutu £740k. Esboniwyd hefyd bod mwyafrif y prosiectau a gyflawnwyd gan ymgynghorwyr mewnol yn is na'r lefel ffioedd o £50k.

Datganodd Nigel Brinn fod yn rhaid i ni sicrhau bod y Ffi Benodol yn gywir o'r cychwyn. Cytunodd DRC a chadarnhaodd y byddai rhaglen ag adnoddau yn cael ei defnyddio i bennu'r ffioedd penodol, ac y byddai'r holl risgiau, ac eithrio cynhyrchiant, yn gorwedd gydag ACGCC. Petai risgiau prosiect yn codi, byddai ffioedd ychwanegol yn cael eu sefydlu drwy gyfrwng prosesau rheoli newid NEC.

Gofynnodd DRC a fyddai modd ail ystyried y cyfleoedd cydweithredol a nodwyd yn adroddiad Weir. Cytunwyd y dylai ACGCC drefnu cyfarfod rhwng AP y Gogledd-ddwyrain i edrych eto ar y cyfleoedd i gydweithio. Gwnaeth Nigel Brinn gais iddo gael ei hysbysu am unrhyw gyfleoedd i gydweithio.

Pwysleisiodd DOW pa mor bwysig ydoedd i'r holl AP sefyll gyda'i gilydd gan fod hon yn fenter gydweithredol o 7 awdurdod.  Gan nad oedd y cyfarfod yn cworwm ni allai unrhyw benderfyniad ffurfiol cael eu gwneud, ond yr oedd yn amlwg o'r farn y rhai sy'n bresennol bod y camau gweithredu arfaethedig yn angenrheidiol er mwyn diogelu buddiannau pob awdurdod. Cytunwyd y byddai'r cofnodion yn cael eu cylchredeg i bawb oedd yn bresennol ac i'r rhai oedd yn absennol o'r cyfarfod, am sylwadau/cytundeb.

Ar ran y Cydbwyllgor, diolchodd y Cynghorydd Gareth Roberts i'r swyddogion am eu gwybodaeth a'u cyngor yn ystod y cyfarfod.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.40pm a daeth i ben am 2.45pm.

---

Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
North & Mid Wales Trunk Road Agent

# Adroddiad y Cydbwyllgor

## 28 Medi 2015

Yn gweithio ar ran Llywodraeth Cymru
Working on behalf of the Welsh Government

## Cynnwys Tudalen


| | |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad** | **3** |
| **2. Dyrannu Gwaith i UDG Awdurdodau Lleol** | **3** |
| **3. Trefniadau'r Bartneriaeth** | **3** |
| **4. Bodloni Gofynion LlC** | **4** |
| **5. Perfformiad** | **4** |
| **6. Gwelliant Parhaus** | **4** |
| **7. Anghydfod ynglŷn â Gwasanaethau** | **4** |

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth ar y pynciau sydd wedi'u cynnwys yng nghylch gorchwyl penodol y Cydbwyllgor.

## 2 Dyrannu Gwaith i Unedau Darparu Gwasanaeth Awdurdodau Lleol

2.1 Mae gwaith yn parhau i gael ei ddyrannu i bob Awdurdod Partner ar draws prif ardaloedd swyddogaethol yr Asiantaeth ar gyfer Gwasanaethau Ymgynghorol, Gwaith a Gweinyddiaeth Dechnegol yn unol â phrotocolau'r Asiantaeth. Gweler Tabl 1 isod sy'n dangos taliadau drafft terfynol ar gyfer 2014-15 (yn amodol ar ddod i gytundeb ar yr hawliadau terfynol). Disgwylir i ragamcaniad o wariant refeniw 2015-16 fod yn debyg i 2014-15. Fodd bynnag, mae lefelau arian cyfalaf yn is na blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn effeithio ar lwyth gwaith Ymgynghoriaeth Awdurdodau Partner ynghyd â chadwyn gyflenwi sector preifat yr Asiant.

| Partner | Costau Craidd £000 | Gwaith Cynnal a Chadw Arferol/Ymatebol £000 | Ymgynghoriaeth / Strwythurau £000 | Fframwaith a Thaliadau Allanol eraill £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ceredigion | 265 | 1,889 | 646 | - | 2,800 |
| Conwy | 130 | 3,155 | 1,695 | - | 4,980 |
| Sir Ddinbych | 146 | 1,284 | 808 | - | 2,238 |
| Sir y Fflint | 42 | 2,528 | - | - | 2,570 |
| Gwynedd | 434 | 2,791 | 3,648 | - | 6,873 |
| Powys | 855 | 6,361 | 1,185 | - | 8,401 |
| Wrecsam | 25 | 1,243 | - | - | 1,268 |
| ACGCC | 3,337 | - | - | 14,738 | 18,075 |
| **Prif Gyfanswm** | **5,234** | **19,251** | **7,982** | **14,738** | **47,205** |

## 3 Trefniadau'r Bartneriaeth

3.1 Er gwaethaf peth ansicrwydd ynghylch dyfodol trefniadau rheoli Cefnffyrdd yng Nghymru wrth aros am broses adolygu LlC, mae trefniadau partneriaeth da wedi parhau i gael eu cynnal heb unrhyw faterion ynghylch darpariaeth gwasanaeth parhaus.

3.2 Mae cyfarfodydd gyda Phrif Swyddogion yn parhau er mwyn darparu diweddariadau ar y broses adolygu a chanlyniadau a thrafod darpariaeth y gwasanaeth, rhannu arfer gorau a mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi.

3.3 Mae Cofrestr Risgiau'r Bartneriaeth wedi'i hadolygu a'i diweddaru er mwyn adnabod risgiau i Bartneriaeth ACGChC, ac adnabod camau gweithredu i reoli a lliniaru risgiau lle bo hynny'n bosib. Amgaeir Cofrestr Risg y Bartneriaeth yn Atodiad A.

## 4 Bodloni Gofynion LlC yng nghyswllt y Cytundeb Asiantaeth

4.1 Mae'r URhC yn gyfrifol am sicrhau bod gofynion LlC fel maent wedi'u nodi yn y Cytundeb Asiantaeth yn cael eu bodloni. Ni does unrhyw faterion yn ymwneud â darparu gwasanaethau wedi cael eu codi gan LlC yn y cyfnod adrodd.

### 4.2 Grŵp Llywio'r Asiantaeth

Cynhaliwyd cyfarfod Grŵp Llywio pellach ar 7 Awst 2015. Prif ffocws y drafodaeth oedd penderfyniad disgwyliedig y Gweinidog.

### 4.3 System Rheoli Ansawdd (SRHA)

Cynhaliwyd archwiliad mewnol o system Rheoli Ansawdd ACGChC ddechrau mis Medi ac rydym yn disgwyl am yr adroddiad.

## 4 Perfformiad

### 5.1 Unedau Gwaith PA

Yn gyffredinol, nid oes unrhyw faterion yn codi ynghylch perfformiad yr Uned Waith. Mae meincnodi yn parhau ac mae lefelau cytgordio costau gwaith yn gwella.

### 5.2 Ymgynghoriaethau'r AP

Dengys y dangosyddion perfformiad yn Atodiad B, Siart 1 bod Ymgynghoriaethau'r AP yn gyffredinol yn parhau i ddarparu gwasanaeth cyffredinol dda.

### 5.3 Fframweithiau Sector Preifat

Dengys y dangosyddion perfformiad yn Atodiad B, Siart 2, 3 a 4 ar gyfer y trefniadau fframwaith sector preifat bod lefel y gwasanaeth a roddir yn parhau yn gyson dda.

## 6 Gwelliant Parhaus

6.1 Prif ffocws ACGChC yn y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2014 hyd heddiw oedd adnabod mesurau lleihau costau fel rhan o adolygiad LlC o Reoli Cefnffyrdd ac i fodloni'r Her Gweinidogol a gyflwynwyd yn Natganiad Ysgrifenedig mis Tachwedd. Arweiniodd hyn at gyflwyniad gan ACGChC i LlC ar Ebrill 30 2015. Darperir diweddariad manwl ar benderfyniad ac ymateb y Gweinidog fel eitem ar wahân ar y rhaglen.

## 7 Anghydfod dan Gymal 9.6 Cytundeb y Bartneriaeth

7.1 Mae cymal 9.6 Cytundeb y Bartneriaeth yn egluro'r broses raddol ar gyfer datrys anghydfod allai godi rhwng yr URhC a'r Unedau Darparu Gwasanaeth. Mae'n bosib y bydd cyfeiriadau o'r fath yn cael eu cyfeirio i'r Cydbwyllgor iddo ddod i benderfyniad arnynt, os byddant yn parhau heb eu datrys.

7.2 Ar hyn o bryd nid oes materion sydd wedi eu codi dan y broses hon i'w hystyried gan y Cydbwyllgor.

# ATODIAD A

# Cofrestr Risg y Bartneriaeth


Tud. 10

## Cofrestr Risg Partneriaeth ACGChC 2015/16 - Adolygwyd gan AMT Medi 2015.

| Rhif | RISG | Tebygolrwydd | Effaith | Sgôr Risg: Tebyg. X Effaith | EFFAITH Y RISG | PERCHENNOG Y RISG | GWEITHREDU AR Y RISG | LLINIARU HYD YMA | Tebygolrwydd | Effaith | Sgôr risg ar ôl lliniaru Tebyg. ac Effaith |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2P | Methu â chyrraedd gofynion cyflwyno gwasanaeth LlC. | 4 | 4 | 16 | 1. Yn ddibynnol ar natur a graddau'r methiant, mae gweithredu posib ar ran LlC yn cynnwys:<br>a) Yr Asiantaeth yn ymgymryd â chynllun gweithredu cywiro<br>b) Newid y darparwr gwasanaeth i feysydd gwasanaeth sy'n tanberfformio<br>c) Terfynu'r Asiantaeth. | Awdurdod Arweiniol a Phartneriaid | 1. Cynnal y perfformiad oddi mewn i lefelau targed gofynnol LlC. | 1. Yr URhC a LlC yn monitro perfformiad yn rheolaidd.<br>2. Grŵp Llywio'r Asiantaeth/LlC yn adnabod ac yn mynd i'r afael â phroblemau posib.<br>3. Cynnal cydymffurfiad gyda Systemau Rheoli Ansawdd.<br>4. Rôl graffu'r Cydbwyllgor.<br>5. Gweithredu'r drefn Archwilio.<br>6. SAG diwygiedig yn cael ei gweithredu a'i chadarnhau fel y model caffael sydd orau gan LlC.<br>7. Meincnodi cryf rhwng AP a'r sector preifat.<br>8. Gweithredu comisiynu ffi-sefydlog am wasanaethau ymgynghori gyda phrofion marchnad priodol.<br>9. Cadarnhau perfformiad boddhaol gan archwilwyr allanol LlC. | 1 | 3 | 3 |
| 3P | Methu â chyrraedd gofynion rheolaeth ariannol LlC. | 4 | 4 | 16 | 1. Methu â chwrdd â gofynion cyllidebol LlC<br>2. Niwed sylweddol posib i enw da'r Asiantaeth a'r Awdurdodau Partner, allai beryglu dyfodol yr Asiantaeth.<br>3. Methu â gwneud y mwyaf o gyllidebau<br>4. Effaith andwyol ar lif arian Awdurdodau Partner | Awdurdod Arweiniol a Phartneriaid | 1. Cynnal y perfformiad oddi mewn i lefelau targed gofynnol LlC. | 1. Mae'r URhC wedi sefydlu system Gyfrifo Ymrwymiad.<br>2. SPS newydd yn cael ei weithredu ynghyd ag anfonebu misol.<br>3. Gwarantu cost yn yr Atodlen Gyfraddau a'r briffiau a brisiwyd.<br>4. Gweithredu'r drefn Archwilio.<br>5. Gweithredu sail comisiynu ar ffi-sefydlog i wasanaethau ymgynghori gyda thâl wedi cwblhau cerrig milltir.<br>6. Gweithredu Atodlen Ddiwygiedig Gweinyddiaeth Dechnegol y Darparwr Gwasanaeth. | 1 | 4 | 4 |
| 4P | Yr Asiantaeth yn cael ei therfynu gan LlC o ganlyniad i benderfyniad gwleidyddol. | 3 | 5 | 15 | 1. Terfynu'r Bartneriaeth.<br>2. Colled incwm sylweddol o bosib.<br>3.Goblygiadau staffio sylweddol o bosib.<br>4.Colled sylweddol o bosib i'r economi leol. | Awdurdod Arweiniol a Phartneriaid | 1.Cynnal perfformiad ac enw da'r Asiantaeth a darpariaeth yr AP.<br>2. Gwelliant parhaus i arddangos gwerth am arian.<br>3. Cydgordio'r Atodlen Gyfraddau a'r prosesau cyflwyno.<br>4. Mabwysiadau dulliau gweithio arfer gorau i wella effeithlonrwydd gweithrediadau.<br>5. Cyflwyno cyflwyniad Ebrill ACGChC ar ostwng cost achosion busnes.<br>6. Cyflwyno targed estynedig arbedion cost LlC. | 1.Adolygiad mawr LlC wedi ei gwblhau.<br>2.Cyflwyniad ac achosion busnes ACGChC Ebrill 2015 yn cael eu derbyn gan LlC. | 2 | 5 | 10 |
| 6P | Un AP yn tynnu'n ôl o'r Bartneriaeth | 2 | 3 | 6 | Bygythiad i ddarpariaeth y gwasanaeth ar y rhwydwaith cefnffyrdd yn y sir sy'n cael ei heffeithio. | Awdurdod Arweiniol a Phartneriaid | 1. Byddai angen Cytundeb Partneriaeth wedi'i ddiwygio.<br>2. Angen adolygu graddau'r ddarpariaeth gwasanaeth a ddarperir gan y AP sy'n gadael.<br>3. Angen ailddyrannu'r gwaith i Awdurdodau Partner eraill neu i gadwyn gyflenwi'r Sector Preifat.<br>4. Yr URhC i gynnal parhad y gwasanaeth. | 1. Cymal 12 o'r Cytundeb Partneriaeth yn delio gyda'r risg yma - gellir cytuno ar y Cytundeb Partneriaeth gan yr Awdurdodau sy'n weddill.<br>2. Cymal 6 o Gytundeb y Bartneriaeth yn delio gyda gweithio dros y ffin.<br>3. Trefniadau cyflenwi y Sector Preifat yn eu lle drwy Fframweithiau os oes angen. | 1 | 3 | 3 |
| 7P | Anghydfod sylweddol rhwng yr Awdurdod Arweiniol a'r Partneriaid | 2 | 2 | 4 | Bygythiad i gyflwyniad y gwasanaeth | Awdurdod Arweiniol a Phartneriaid | 1. Dilyn y broses ddatrys raddol. | 1. Cymal 9 o'r Cytundeb Partneriaeth yn diffinio y broses ddatrys. | 1 | 2 | 2 |
| 9P | Diwygio Llywodraeth Leol yng Nghymru. | 4 | 4 | 16 | Newid sylweddol i strwythur a maint y gadwyn gyflenwi ac fe allai prosesau newid cysylltiedig amharu ar gyflwyno'r gwasanaeth yn y dyfodol. | Awdurdod Arweiniol a Phartneriaid | 1. Byddai angen Cytundeb Partneriaeth wedi'i ddiwygio.<br>2. Adolygu graddau'r ddarpariaeth gwasanaeth a ddarperir gan Awdurdodau Lleol newydd.<br>3.Angen i'r URhC i gynnal parhad y gwasanaeth. | 1 Model ACGChC diwygiedig yn cydweddu gyda threfniadau newydd arfaethedig ALl. | 4 | 2 | 8 |


# ATODIAD B

# Siartiau Perfformiad





*Yn seiliedig ar 95 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol*

Siart 1





*Yn seiliedig ar 29 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a gwblhawyd*

Siart 2




*Yn seiliedig ar 57 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a gwblhawyd*

Siart 3




*Yn seiliedig ar 14 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a gwblhawyd*

Siart 4

# PROFFIL ARBEDION ARFAETHEDIG NMWTRA 2014/15 - 2018/19

| Achos Busnes | Categori Arbedion | Disgrifiad Byr | Goblygiadau i'r PA's | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | |
| | | | | AMSERLEN DARPARU | | | | | |
| BC04 - Gweinyddiaeth Dechnegol | Newid Model Darparu | Mewnoli a rhesymoli darparu swyddogaethau Gweinyddol Technegol i'r Uned Rheoli Cefnffyrdd (TRMU). | Goblygiadau trosglwyddo staff - trafodaethau parhaus gyda phenaethiaid gwasanaeth AP | | | | | | |
| BC05 - Archwiliadau | Newid Model Darparu | Mewnoli a rhesymoli darparu Archwiliadau Diogelwch, Manwl ac Arbenigol i'r TRMU. | Goblygiadau trosglwyddo staff - trafodaethau parhaus gyda phenaethiaid gwasanaeth AP | | | | | | |
| BC06 - Ceidwad Ardal | Newid Model Darparu | Mewnoli a rhesymoli swyddogaeth cleient i'r TRMU. | Goblygiadau trosglwyddo staff - trafodaethau parhaus gyda phenaethiaid gwasanaeth AP | | | | | | |
| BC07 Ymgynghoriaeth | Model Caffael Diwygiedig | Lleihad yn y Lluosydd o 2.1 i 1.9 er mwyn bod yn fwy cyson gyda'r sector preifat. | Unioni gyda'r farchnad | | | | | | |
| BC10 - Cynnal a Chadw Ymatebol | Arbedion Effeithlonrwydd | Ymdrin yn well ag atgyweiriadau diffygion categori. | Darparu gwell gwerth am arian i LlC | | | | | | |
| BC12 - Cynnal a Chadw Gaeaf | Rhestr o Gyfraddau | Sefydlu methodoleg unffurf ar gyfer rhannu costau sefydlog cynnal a chadw gaeaf rhwng Cefnffyrdd a Ffyrdd Sirol. | Cysoni y taliad i PA's | | | | | | |
| BC14 - Ymateb i Argyfwng | Newid Model Darparu | Cyflwyno trefniadau diwygiedig i'r Uned Ymateb i Argyfwng ar gyfer ffyrdd deuol a sengl. | Ymestyn darpariaeth ymateb i argyfwng y tu allan i oriau gwarantedig drwy greu'r ERU's | | | | | | |
| BC - 15 Rhestr o Gyfraddau | Rhestr o Gyfraddau | Datblygu system SOR newydd a wnaeth sefydlu methodoleg tryoloyw ar gyfer adnabod a rhannu costau sefydlog gorbenion rhwng y Cefnffyrdd a'r Ffyrdd Sirol h.y. cyfrifiwyd y gorbenion a'r risg ar wahân i gyfraddau'r uned a gweithgareddau cylchol blynyddol. | Cysoni lefel gostyngol o incwm ar gyfer ymgymryd â gweithgareddau cynnal a chadw. | | | | | | |
| BC18 - Gwaith Stryd | Newid Model Darparu | Mewnoli a rhesymoli darparu swyddogaethau Gweinyddol Technegol i'r Uned Rheoli Cefnffyrdd (TRMU). | Goblygiadau trosglwyddo staff - trafodaethau parhaus gyda phenaethiaid gwasanaeth AP | | | | | | |
| BC19 Cynnal a Chadw seiliedig ar Risg wedi'i arwain gan wybodaeth | Arbedion Effeithlonrwydd | Gweithredu dulliau cynnal a chadw yn seiliedig ar risg fel y cytunwyd gyda'r Llywodraeth Cymru | Arbedion i'w cyflawni yn erbyn costau gwaelodlin WGTRMM 2015. Potensial ar gyfer newid mewn mathau o waith a chynnydd mewn faint o waith fydd yn yr unedau gwaith AP. LlC i gadarnhau'r WGTRMM yn derfynol cyn i'r asiant sefydlu'r effaith lawn ar unedau gwaith PA. Rhagwelir bydd effaith net ar lwyth gwaith ddim yn newid neu'n cynyddu ychydig. | | | | | | |
| BC20 Archwiliadau seiliedig ar Risg wedi'u harwain gan ddeallusrwydd | Arbedion Effeithlonrwydd | Gweithredu dulliau cynnal a chadw yn seiliedig ar risg fel y cytunwyd gyda'r Llywodraeth Cymru | Dim - gan fod y rôl archwilio bellach gyda'r TRMU (gweler BC05) | | | | | | |

Eitem 8